# Papur y Bwrdd

12 Mai 2016

| | |
|---|---|
| **Teitl y papur:** | Ail Gylch o Gynlluniau Rheoli Basn Afon: Blaenoriaethau ar gyfer Bodloni Gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr |
| **Cyfeirnod y papur:** | NRW B 29.16 |
| **Paratowyd y papur gan:** | Ceri Davies |
| **Cyflwynwyd y papur gan:** | Ruth Jenkins |

| | |
|---|---|
| **Diben y papur:** | **Cytuno ar y themâu allweddol y canolbwyntir arnynt er mwyn gweithredu'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, a chefnogi cyfres o bapurau pellach i'r Bwrdd a fydd yn datblygu ac yn blaenoriaethu rhaglenni gwaith i hybu'r broses o weithredu'r Gyfarwyddeb.** |
| **Argymhelliad:** | Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r canlynol:<br>• y crynodeb o'r materion allweddol sy'n effeithio ar y gwaith o gyflawni amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr<br>• y themâu strategol sy'n dod i'r amlwg, sy'n effeithio ar yr amgylchedd dŵr yng Nghymru<br>• y crynodeb o gamau gweithredu cyfredol neu arfaethedig i fynd i'r afael â'r rhain, a fydd yn sail i bapurau'r Bwrdd yn y dyfodol. |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** Dylid nodi na fydd pob pennawd efallai'n berthnasol i'r pwnc | Sut y mae'r cynigion sydd yn y papur hwn yn helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni egwyddorion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran:<br>**Ystyried yr <u>hirdymor</u> a gweithredu mewn modd <u>integredig</u>:** Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn ystyried yr hirdymor hyd at 2027. Roedd yn disodli nifer o Gyfarwyddebau Dŵr ac yn cynnig fframwaith ar gyfer rheoli dŵr daear a dŵr wyneb mewn modd integredig. Gall y camau gweithredu a gynigir mewn Cynlluniau Rheoli Basn Afon esgor ar fanteision lluosog. Bydd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn ein helpu i ganolbwyntio ar ddull mwy integredig o ymdrin ag adnoddau naturiol.<br>**Cynnwys <u>amrywiaeth</u> o'r boblogaeth a gweithio mewn modd <u>cydweithredol</u>:** Caiff Cynlluniau Rheoli Basn Afon eu seilio ar gyfres o ymgyngoriadau cyhoeddus. Rydym hefyd yn gweithio mewn modd cydweithredol gydag aelodau ein Paneli Cyswllt. |

| | |
|---|---|
| | Bydd pecynnau gwaith pellach â thema'n cael eu datblygu mewn modd cydweithredol ac yn llywio ein gwaith yn y dyfodol ar ddatblygu Datganiadau Ardal.<br>**Atal problemau rhag digwydd:** Elfen allweddol o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yw atal dirywiad. Mae llawer o weithgareddau Cyfoeth Naturiol Cymru o ddydd i ddydd yn cyfrannu at atal dirywiad. |

**Mater**

1. Mae cael digon o ddŵr o ansawdd da'n hanfodol ar gyfer organebau byw ac yn hanfodol i gynnal y bywyd gwyllt amrywiol a geir yng Nghymru. Mae pobl a'r economi hefyd yn cael budd sylweddol o adnoddau dŵr naturiol Cymru. Rhaid dod o hyd i atebion cynaliadwy a chydgysylltiedig newydd i'r bygythiadau sy'n wynebu'r amgylchedd dŵr yn awr ac a fydd yn ei wynebu yn y dyfodol. Bydd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn ein helpu i ganolbwyntio ar ddull mwy cydweithredol ac integredig o reoli adnoddau naturiol, gan ystyried achosion sylfaenol problemau a gweithio gyda rhanddeiliaid i ddod o hyd i atebion hirdymor.

2. Dogfen fframwaith yw'r papur hwn i ddisgrifio'r prif rwystrau a'r prif gyfleoedd o safbwynt cyflawni amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae'r papur yn nodi bod y materion strategol yn adlewyrchu rhai o'r materion y nodwyd eu bod yn gamau gweithredu thematig dan 'Raglen Natura 2000 LIFE Cymru' (NRW B B 58.15) a Fframwaith Gweithredu Blaenoriaethol diwygiedig Natura 2000. Bydd dosbarthiad y materion hyn yn amrywio ar draws Cymru, a bydd angen i'r blaenoriaethau a'r cyfleoedd o ran creu a gweithredu atebion priodol gael eu hadlewyrchu mewn Datganiadau Ardal. Bydd papurau'r Bwrdd yn y dyfodol yn canolbwyntio ar yr hyn y mae angen i ni ei wneud i fynd i'r afael â'r heriau hyn, a byddant yn cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu Datganiadau Ardal wrth iddynt ddod i'r amlwg.

**Cefndir**

3. Mae Cynlluniau Rheoli Basn Afon yn gweithio ar sail cylch chwe blynedd, ac ar hyn o bryd rydym ar ddechrau'r ail gylch a fydd yn para tan 2021. Cafodd y cynlluniau ar gyfer yr Ardaloedd Basn Afon eu cymeradwyo gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol (a'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn achos cynlluniau trawsffiniol) ac maent bellach wedi'u cyhoeddi[1]. Rydym wedi cydweithio'n agos ag Asiantaeth yr Amgylchedd wrth lunio'r dogfennau hyn ar gyfer yr Ardaloedd Basn Afon trawsffiniol – Dyfrdwy a Hafren. Mae'r dogfennau yn bodloni gofynion statudol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, maent yn disgrifio cyflwr cyfredol yr Ardaloedd Basn Afon ac maent yn pennu'r Rhaglen o Fesurau ar gyfer gwella'r amgylchedd dŵr erbyn 2021. Cawsant eu seilio ar gyfres o ymgyngoriadau cyhoeddus.

4. Y waelodlin ar gyfer Cymru ar ddechrau'r ail gylch yw bod 37% o gyrff dŵr yn cyflawni statws da neu well yn gyffredinol. Cafodd amcanion eu pennu i gyflawni statws da neu well mewn 79% o gyrff dŵr erbyn 2021. Cafodd y ffocws ar gyfer yr ail gylch ei gynnig mewn papur blaenorol i'r Bwrdd (NRW B B 44.15) ar atal dirywiad, gan dargedu 5% yn

[1] https://cyfoethnaturiol.cymru/water/quality/river-basin-management-plans-published/?lang=cy

rhagor o gyrff dŵr er mwyn cyflawni statws da mewn 42% o gyrff dŵr erbyn 2021, a datblygu ein dull o reoli adnoddau naturiol er mwyn ymdopi â'r heriau hyn gan wella canlyniadau cymdeithasol ac economaidd ar yr un pryd. Dyma'r lleiafswm o welliant yr ymrwymwyd i'w gyflawni yn ystod y chwe blynedd nesaf. Cafodd argymhellion y papur eu derbyn.

5. Fodd bynnag, mae bwlch mawr rhwng cyflawni'r canlyniadau a ragwelwyd, yr ydym wedi'u pennu yn y Cynlluniau (42% o gyrff dŵr i gyflawni statws da neu well erbyn 2021), a'r amcan cyffredinol a sefydlwyd trwy'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, sef cyflawni statws da mewn 79% o gyrff dŵr erbyn 2021. Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a'n partneriaid er mwyn nodi cyfleoedd pellach i gymryd camau i wella ansawdd ein dyfroedd y tu hwnt i'r 5% o welliant. Bydd gwaith cyflawni'n cael ei ategu ymhellach gan y cynnyrch a'r adnoddau sy'n cael eu datblygu trwy ofynion Deddf yr Amgylchedd, a'r blaenoriaethau a nodwyd yn Strategaeth Ddŵr i Gymru Llywodraeth Cymru.

## Asesiad – Y prif bwysau o ran y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr

6. Ar gyfer pob corff dŵr sy'n methu â chyflawni'r statws gofynnol, rydym yn cofnodi'r rheswm dros fethu â chyflawni statws da. Gall mwy nag un rheswm fod yn berthnasol i gorff dŵr, ac mae'r rhesymau yn tueddu i berthyn i themâu allweddol. Caiff y prif themâu eu dangos yn Atodiad 1 a'u trafod isod.

7. **Addasiadau ffisegol** – Gall y rhain achosi newidiadau i'r llif naturiol a lefelau dŵr ac effeithio ar y cynefin sydd ar gael. Er enghraifft:
   - Mae miloedd lawer o rwystrau yn ein hafonydd, ac mae'r mwyafrif yn waddol y chwyldro diwydiannol a hen felinau. Gyda'n partneriaid, rydym wedi diwygio cannoedd o rwystrau er mwyn adfer y potensial i bysgod fudo. Llwyddodd ein rhaglen Eogiaid at Yfory ar ei phen ei hun i sicrhau 62 o welliannau o ran galluogi pysgod i fudo, gan wella gallu pysgod i gyrraedd dros 700 cilomedr o afonydd.
   - Rydym yn gweithio gyda Dŵr Cymru i nodi mesurau lliniaru ymarferol, e.e. newid systemau gollwng dŵr o gronfa ddŵr neu, os yw'n gost-effeithiol, gosod llwybrau llysywod.
   - Rydym wedi cydgysylltu'r Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd â'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon trwy ymgynghori ynghylch y cynlluniau a'u cyhoeddi ar y cyd. Yng nghyswllt cyflawni, rydym yn sefydlu trefniadau cydgysylltu pellach trwy rannu data a rhaglenni gwaith. Bydd mesurau lliniaru sy'n ymwneud ag asedau perygl llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael eu cynnwys mewn rhaglenni gwaith presennol lle bo hynny'n ymarferol. Bydd angen i rai mesurau gael eu cyflawni gan eraill, hynny yw awdurdodau lleol a thirfeddianwyr preifat, ac mae ymgysylltu ynglŷn â'r cyfrifoldeb hwnnw'n hanfodol.

8. **Llygredd a achosir gan ddŵr o fwyngloddiau** – Mwyngloddiau metel segur sy'n achosi llygredd gan fetelau yw'r rheswm dros fethu â chyflawni statws da mewn 67 o gyrff dŵr yng Nghymru, sy'n cynnwys cyfanswm o dros 700 cilomedr o afonydd. Mae mwyngloddiau metel segur yn gyfrifol am y ffaith bod 8% o'n hafonydd ar hyn o bryd yn methu â chyflawni eu hamcanion gofynnol o ran ansawdd. Mae rhagor o fanylion ynghylch yr her y mae mwyngloddiau metel segur yn ei hachosi i ni i'w gweld ym mhapur rhif NRW B 30.16 y Bwrdd.

9. **Llygredd o ardaloedd gwledig** – Gall effeithiau dulliau gwael o reoli tir olygu bod maetholion, plaladdwyr a gwaddodion yn effeithio ar yr amgylchedd dŵr. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru am weld dull effeithiol ac effeithlon o reoli tir a maetholion mewn modd integredig ar draws Cymru gyfan. Bydd hynny'n helpu i leihau llawer o'r pwysau amgylcheddol sy'n gysylltiedig ar hyn o bryd â chynhyrchu ym maes amaethyddiaeth a choedwigaeth. Mae'r materion hyn wedi'u nodi eisoes yn ymatebion Cyfoeth Naturiol Cymru i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch y Fframwaith Strategol ar gyfer Amaethyddiaeth a'r Strategaeth Ddŵr. Rydym wedi cyflwyno ein hargymhellion i Lywodraeth Cymru os yw tystiolaeth yn cefnogi camau i ddynodi ardaloedd yn Barthau Perygl Nitradau yng Nghymru. Caiff dynodi ardaloedd yn Barthau Perygl Nitradau ei ystyried yn fesur sylfaenol dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a bydd yn helpu i gyflawni amcanion y Gyfarwyddeb.

10. **Llygredd mewn ardaloedd trefol** – Mae ein trefi a'n dinasoedd yn gweld mwyfwy o bridd yn cael ei selio wrth i ni adeiladu ar fannau gwyrdd. O ganlyniad, caiff systemau draenio a adeiladwyd i gludo dŵr glaw o'r mannau hynny eu gorlwytho'n aml a gall y dŵr glaw gael ei ollwng i ddŵr wyneb gan achosi llygredd. Mae mynd i'r afael â hynny'n gymhleth oherwydd natur a nifer y gollyngiadau bach sydd gyda'i gilydd yn cael effaith fawr yn lleol. Mae Strategaeth Ddŵr Llywodraeth Cymru a Chynllun Llygredd Dŵr Gwasgaredig Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod hynny, ac mae'r naill a'r llall wedi'u cynnwys yn y Rhaglen o Fesurau yn y Cynlluniau Rheoli Basn Afon. Mae gennym gyfle hefyd i leihau effeithiau datblygiadau'r gorffennol a'r dyfodol trwy waith cynllunio trefol gwell a thrwy systemau draenio trefol gwell, fel y dangoswyd ym mhrosiect GlawLif Llanelli.

11. **Llygredd a achosir gan ddŵr gwastraff** – Gall maetholion a llygryddion o garthion a dŵr gwastraff gael effaith niweidiol ar yr amgylchedd dŵr. Yn rhan o adolygiad rheolaidd Ofwat o brisiau, rydym yn cyflwyno Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol i gwmnïau dŵr, sy'n egluro'r rhwymedigaethau i gydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol, y mae'n rhaid eu cyflawni'n rhan o'u Cynlluniau Rheoli Asedau. Rydym ar hyn o bryd yng nghyfnod AMP6 (2015–2020). Mae rhaglen fuddsoddi Dŵr Cymru ar gyfer y cyfnod hwn yn cynnwys cyllid gwerth £41.5 miliwn er mwyn cyflawni statws ecolegol da dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

12. **Llif** – Nid yw'r system bresennol ar gyfer trwyddedu gweithrediadau echdynnu'n gallu ymdopi mwyach â'r heriau a achosir gan y newid yn yr hinsawdd a'r twf a fydd yn y boblogaeth yn y dyfodol. Yn ogystal, mae rhai gweithrediadau echdynnu dŵr sy'n achosi risg sylweddol i statws dŵr wedi'u heithrio ar hyn o bryd rhag gorfod cael trwydded. Felly, mae Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio ar gyflwyno dau ddarn pwysig o waith:
    - **Awdurdodiadau newydd** er mwyn cyflwyno dull o reoli'r gweithrediadau echdynnu dŵr sydd wedi'u heithrio ar hyn o bryd (e.e. dyfrhau diferol, gweithrediadau echdynnu dŵr mewn ardaloedd sydd wedi'u heithrio, ac ati). Ar sail ein hamcangyfrifon cyfredol, rydym yn disgwyl trwyddedu o leiaf 270 o weithrediadau echdynnu dŵr sydd wedi'u heithrio ar hyn o bryd yng Nghymru.
    - **Diwygio'r system rheoli gweithrediadau echdynnu** – Mae Llywodraeth Cymru wedi egluro sut y bydd y system ar gyfer rheoli gweithrediadau echdynnu dŵr yn newid yn y dyfodol. Rydym yn disgwyl i'r system newydd, a fydd yn cael ei gweithredu drwy'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, ddechrau yn y 2020au

cynnar.

13. **Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol** – Mae'r ffaith bod Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol yn ymledu mewn cyrsiau dŵr ledled Cymru yn bygwth bioamrywiaeth, yn cynyddu'r perygl o lifogydd ac yn cael effaith economaidd sylweddol oherwydd y costau sy'n gysylltiedig â'r gwaith o'u hatal rhag ymledu ymhellach. Gallai'r newid yn yr hinsawdd gynyddu amlder ac amrywiaeth Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol yn y dyfodol gan effeithio ar gyflwr cyrff dŵr.

14. **Cynllunio mewn modd integredig** – Er ei bod yn bwysig cyflwyno themâu sy'n gyffredin i achosion o fethu â chyflawni amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, mae hefyd yn bwysig cydnabod manteision cynllunio mewn modd integredig. Mae Cynlluniau Gweithredu Thematig dan 'Raglen Natura 2000 LIFE Cymru' wedi'u defnyddio i egluro'r camau gweithredu strategol sy'n ofynnol er mwyn sicrhau bod nodweddion dynodedig yn cael eu hadfer i gyflwr ffafriol, a cheisio mynd i'r afael â rhwystrau sylfaenol. Mae'r cynlluniau hynny'n cynnwys Cynlluniau Gweithredu Thematig ar gyfer 'llygredd dŵr gwasgaredig' a 'newidiadau gan ddyn i amodau hydrolig', sydd hefyd yn faterion o bwys o safbwynt y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae'r data yn dangos bod y materion hyn wedi cael effaith andwyol (neu'u bod yn debygol o gael effaith andwyol) ar safleoedd Natura 2000 – 35% o safleoedd Natura 2000 yn achos llygredd dŵr gwasgaredig a 40% o safleoedd Natura 2000 yn achos newidiadau gan ddyn i amodau hydrolig – ac mae'n dangos y synergedd rhwng y ddwy raglen hyn a'r angen i gynllunio camau gweithredu mewn modd integredig er mwyn diwallu anghenion amryw Gyfarwyddebau. Mae hynny'n wir am nifer o'n rhaglenni gwaith allweddol. Felly, er enghraifft, mae ein rhaglen 'Agenda ar gyfer Newid' yn ystyried sut y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn cael pysgodfeydd mewndirol cynaliadwy i Gymru. Bydd hynny'n hybu manteision ehangach o ran ecosystemau ar gyfer fflora a ffawna trwy gamau gweithredu ystod eang o randdeiliaid, a bydd yn mynd i'r afael â rhai o'r materion sy'n ymwneud â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, a nodwyd yn y Cynlluniau Rheoli Basn Afon.

**<u>Y camau nesaf</u>**

15. Mae'r data ar gyfer Cymru wedi'i gyflwyno i'r Undeb Ewropeaidd trwy'r System Gwybodaeth am Ddŵr ar gyfer Ewrop (WISE). Bydd yn rhaid i ni adrodd wrth yr Undeb Ewropeaidd ynghylch cynnydd yn 2018. Bydd yr ymgyngoriadau er mwyn paratoi ar gyfer y trydydd cylch o Gynlluniau Rheoli Basn Afon yn dechrau yn 2018 â'r ymgynghoriad ynghylch *Working Together*.

16. Byddwn yn ystyried ymhellach sut y byddwn yn ymdrin yn wahanol â'r darn o waith, gan ddefnyddio'r Egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a'r saith o Nodau Llesiant i helpu i nodi cyfleoedd ac opsiynau amgen ar gyfer sicrhau canlyniadau gwell er mwyn i ni gyfrannu cymaint ag sy'n bosibl iddynt. Byddwn hefyd yn datblygu ymhellach pa wybodaeth yn ymwneud â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a fydd yn cyfrannu i'r Datganiadau Ardal, yn ogystal â nodi cyfleoedd posibl.

17. Disgwylir y bydd argymhellion ynghylch rhaglen fonitro'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn dod i'r amlwg o'r Adolygiadau o Feysydd Busnes.

18. Ar hyn o bryd rydym wrthi'n cytuno ar dargedau cyflawni ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio a thimau gweithredol, yn y Cynlluniau Cyflawni

Cyfarwyddiaethau, er mwyn cyflwyno camau gweithredu cenedlaethol a lleol yn ymwneud â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ar gyfer 2016-17. Bydd hynny'n cynnwys cyfleoedd i gyflwyno blaenoriaethau'n ymwneud â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ar dir a reolir gennym.

19. Rydym yn gweithio gyda grŵp dŵr strategol Llywodraeth Cymru i ddrafftio cynllun i ddatblygu ein dull o ddefnyddio rhanddirymiadau yn y trydydd cylch, gan fod angen i lawer o'r gwaith casglu tystiolaeth a llawer o'r gwaith penderfynu ddigwydd yn ystod y cylch hwnnw. Bydd hynny'n cynnwys cynnal dadansoddiad cost:budd ac asesiadau o annichonoldeb technegol.

**Argymhelliad**

20. Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r themâu strategol sy'n dod i'r amlwg, sy'n effeithio ar yr amgylchedd dŵr yng Nghymru, a'r crynodeb o gamau gweithredu cyfredol neu arfaethedig i fynd i'r afael â'r rhain, a fydd yn sail i bapurau'r Bwrdd yn y dyfodol.

**Prif risgiau**

21. Mae sawl risg yn gysylltiedig â'r gwaith o gyflawni'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon sydd wedi'u diweddaru:
    - Y graddau y mae ein partneriaid yn derbyn yr amcanion a'r camau gweithredu a argymhellir gennym yn y cynllun. Perchennog y risg – Cyfoeth Naturiol Cymru
    - Disgwyliadau uwch yng nghyswllt camau gweithredu, a allai gael eu lleihau gan ystyriaethau gwleidyddol ynghylch fforddiadwyedd. Perchennog y risg – Llywodraeth Cymru
    - Diffyg adnoddau i gyflawni'r camau gweithredu a nodwyd yn y cynlluniau terfynol ac i gynnal dosbarthiadau – adnoddau o ran staff ac adnoddau ariannol. Perchennog y risg – Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru
    - Daeth y Cytundeb Lefel Gwasanaeth gydag Asiantaeth yr Amgylchedd i ben ym mis Mawrth 2016 a bydd y gwaith o gynnal rhaglen, adnoddau a dosbarthiadau'n ymwneud â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn cael ei gyflawni gan staff Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae hynny'n gofyn am lawer o adnoddau ychwanegol ac mae opsiynau'n cael eu hystyried yn rhan o'r Adolygiadau o Feysydd Busnes.

**Goblygiadau ariannol**

22. Mae'r camau gweithredu yn y Cynlluniau Rheoli Basn Afon sydd wedi'u diweddaru yn esgor ar oblygiadau ariannol i'r sawl y disgwylir iddynt gyflawni'r camau gweithredu. Bydd y cynlluniau'n dylanwadu ar lawer o raglenni, gan gynnwys rhaglenni buddsoddi'r cwmnïau dŵr a Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru gan gynnwys Glastir.

23. Mae'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon sydd wedi'u diweddaru yn cynnwys gwybodaeth economaidd am fanteision a chostau cyffredinol y camau gweithredu sydd yn y cynlluniau, a'r sectorau y mae angen iddynt weithredu. Roedd fforddiadwyedd y cynlluniau'n destun penderfyniad Gweinidogol.

24. Mae'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon sydd wedi'u diweddaru yn cynnwys y Rhaglen o Fesurau. Caiff llawer o'r mesurau eu harwain gan Cyfoeth Naturiol Cymru a byddant yn

cael eu cyflawni drwy weithio gyda phartneriaid.

**Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb**

25. Nid oes asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi'i gynnal yn rhan o'r broses sy'n gysylltiedig â'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon. Ni ragwelir unrhyw effeithiau.


**Mynegai i'r Atodiadau**

26. Atodiad 1 – Y prif resymau dros fethu â chyflawni statws da yng Nghymru.

27. Atodiad 2 – Mae papurau blaenorol y Bwrdd sy'n berthnasol – B B 44.15 a B B 58.15 – wedi'u clymu er gwybodaeth gefndirol.

**Atodiad 1**

Ffigur 1: Y prif resymau dros fethu â chyflawni statws da yng Nghymru.




Physical modifications – Addasiadau ffisegol
Pollution (abandoned mines) – Llygredd (mwyngloddiau segur)
Pollution (rural areas) – Llygredd (ardaloedd gwledig)
Pollution (waste water) – Llygredd (dŵr gwastraff)
Pollution (urban) – Llygredd (trefol)
Changes to flow & water level – Newidiadau i lif a lefel dŵr
Number of failing water bodies – Nifer y cyrff dŵr sy'n methu